

Lesley Griffiths AS/MS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder ac Ymgynghori

[Huw.Irranca-Davies@senedd.wales](mailto:Huw.Irranca-Davies@senedd.wales)

6 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, hoffwn roi gwybod i chi am gyfarfod o'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023.

Cadeirydd y cyfarfod oedd Mark Spencer AS, Gweinidog Gwladol dros Fwyd Llywodraeth y DU, ar ran Gogledd Iwerddon. Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth Llywodraeth yr Alban y DU; John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, Llywodraeth y DU; James Davies AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Yn y cyfarfod buom yn trafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu), gan gynnwys statws y Bil, ac yn arbennig gynlluniau Defra ar gyfer rheoli'r ddeddfwriaeth helaeth yn y portffolio.

Yna, gwnaethom drafod canlyniadau cadarnhaol y CBD COP15. Byddwn yn trafod y camau nesaf ym mis Mawrth.

Yn dilyn hyn, rhoddodd Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU ddiweddariad ar y problemau cyflenwi sy'n effeithio ar y sector.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Roedd sawl eitem o Unrhyw Fusnes Arall. Gofynnais am ddiweddariad ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a a Gedwir) a nodwyd y byddaf yn ymateb i lythyr yr Arglwydd Beynon ar y Bil Anifeiliaid (Gweithgareddau Lles Isel Dramor). Gofynnais hefyd am ddiweddariad ar yr alwad am dystiolaeth ar adar mewn cawell y cytunais iddi y llynedd.

Ailadroddodd gweinidogion Llywodraeth yr Alban eu pryderon ynghylch y Pecyn Gwella Amgylchedd Gwynt ar y Môr.

Yna, gofynnais am ddiweddariad ar Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol Prydain, y cytunais i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

Yn olaf, cododd Llywodraeth yr Alban offer pysgota diwedd oes a gofyn am weithio gyda'i gilydd i leihau gwastraff plastig o'r diwydiant.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 6 Mawrth.

Bydd gohebiaeth am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar <https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod toriad er mwyn hysbysu'r aelodau. Os bydd aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd byddwn yn hapus i wneud hynny.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.